Gair bach Bethlehem 5

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 5 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Ddoe ar lwybr! Heddiw ar-lein!

Cofio'r casglu'r dwy geiniogau? Yr hanes yn llawn gan Mair John, Llysfaen, ar dudalen 3.

Stori Noa oedd testun y wers yn yr Ysgol Sul ar-lein bore dydd Sul diwethaf, Ebrill 19 - gweithgaredd gwahanol iawn i'r un a welwyd o gwmpas Bethlehem yn nechrau Mai rai blynyddoedd yn ôl bellach. *(llun chwith)*.

Roedd Delwyn wedi gosod tasg i'r plant i gyd-fynd â'r wers sef creu model, neu dynnu llun, o gapel Bethlehem neu arch Noa, ac fe ymatebodd y plant yn arbennig i'r sialens.

Uchod, mae lluniau o ymdrechion Elis, Steffan, Aaron, Gwenni, Mabli, Enfys, Awen, Sara a Megan, ond diolch hefyd i'r holl fodelau eraill welsom ni fore dydd Sul.

Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd ar-lein dydd Sul nesa eto ar yr un amser (10.30) ac y mae croeso i unrhyw un ymuno â'r sesiwn.

Y drefn ydy bod Heulwen yn anfon linc yn uniongyrchol i'r teuluoedd. Os oes unrhyw un arall am ymuno, yna mae angen iddyn nhw rhoi gwybod i Heulwen ar e-bost neu ffôn *(manylion isod)* ac fe wnaiff hi "hala'r linc" iddyn nhw. ***Heulwen Jones*** heulwen@btinternet.com 07779 360614

YN Y RHIFYN HWN

Delwyn, Cydymdeimlo, Pos enwau llyfrau	2
Casglu Ceiniogau, Gair o'r Gwaelod	3
Soar y Mynydd	4
Alwyn a'r miliwnydd	5
Cymanfaoedd	6
Dau ben-blwydd	7
Oedfa Sul nesaf	8 & 9
Tripiau Ysgol Sul	10
Sampleri	11
Cofroddion	12
Odlau'r Garth	13 & 14

Meddyg Da *Delwyn Sion*

Ar drothwy'r Pasg, a Iesu'r "Meddyg Da" newydd gyfodi Lazarus o'i fedd, fe ymdeithiodd Arwr y bobl i mewn i Jerwsalem yn sain bonllefau'r dorf. Roedd 'na weiddi "Hosanna" yn y strydoedd, ac mae'n siŵr gen i roedd 'na guro dwylo. OND, o fewn wythnos, roedd y dorf wedi anghofio, ac wedi mynd yn fud. Ers y Pasg eleni ry'n ni wedi bod mas ar y stryd yn wado sosban fach gyda llwy bren, ac yn curo dwylo a chymeradwyo'n harwyr newydd – y gweithwyr iechyd allweddol sy' ar y "Front Line". OND, fe ddaw amser, pan fydd gofid Covid yn pylu, a'r gymeradwyaeth yn dod i ben.

Gwae ni, os dilynwn y dorf yn fud ac anghofio aberth yr arwyr. Achos, yn y tawelwch hwnnw bydd angen codi llais i sicrhau bod y "Frontliners" yma, yn wahanol i'r rhai a ddychwelodd o'r "Front Line" arall yna dros ganrif yn ôl, yn cael pob cymorth angenrheidiol – yn ymarferol, yn emosiynol, ac yn feddyliol.

Dyna ma'n nhw'n haeddu, dyna yw eu teilyngdod.

Byddwn yn barod i godi llais ar eu rhan.

Delwyn

Rydyn ni'n anfon ein cofion at y canlynol:

- ***Bethan a Kevin Tame*** *a'r teulu, yng Ngwaelod-y-garth. Bu farw tad Bethan, Mr Arfon Rowlands, ar ôl bod yn yr ysbyty yng Nghaerdydd am rai misoedd. Yn frodor o Feirionnydd, roedd Mr Rowlands wedi symud i lawr at y teulu o ardal Yr Wyddgrug ac yn ewyrth i un o'n cyn-weinidogion, Y Parchedig Gareth Rowlands.*

- *Cofion hefyd at* ***bawb*** *o'n haelodau a'u teuluoedd sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.*

Pos Enwau Llyfrau

Diolch i Delyth Pollard am anfon y Pos hwn aton ni. Allwch chi ddarllen enwau llyfrau Cymraeg yn yr "emojis"? Atebion ar y dudalen olaf!

Casglu'r dwy geinioge

Mair John

Wrth chwilota drwy'r hen lunie, fe ddes i ar draws y llun hwn (a'r un sydd ar y dudalen flaen). R'on i'n cofio'r achlysur ond ddim yn rhy siŵr o'r manylion, felly dyma fi'n cysylltu gyda Delyth (Yr Eglwys Newydd), a dyma'r stori yn llawn i chi:

Y dasg oedd casglu'r holl ddarne dwy geiniog oedd yn sbâr o gwmpas ein cartrefi, er mwyn gweld a allen ni lwyddo i wneud llwybr ohonyn nhw o gwmpas y capel. Doedd dim modd gwneud llwybr o gwmpas cefn y capel, felly aethon ni i fyny grisiau ffrynt y capel ac ar hyd yr ale, ac i fyny'r grisiau i mewn i'r festri. Llwyddwyd i wneud cylch cyfan a hanner ffordd rownd yr eildro.

Roedd yr ymgyrch adeg Wythnos Cymorth Cristnogol, a dyma oedd menter yr Ysgol Sul ynghyd ag amrywiol weithgareddau eraill ar brynhawn Sadwrn heulog. Dyddie da!

A phryd oedd y dasg yma? Wel, wrth edrych ar y plant fydden i'n meddwl ei bod ryw chwarter canrif yn ôl, ond ma' rhaid dweud nad ydy Delyth heb newid dim!

Mair John

GAIR O'R GWAELOD

Colofn cwbl an-olygyddol!

Lliwiau'r Garth

Rydyn ni'n mesur y tymhorau ym Mhentyrch yn ôl lliwiau'r Garth, y bryncyn sydd uwchben ein Tŷ Cwrdd ni i gyd, yng "Ngwaelod-y-garth".

Er bod y llwyni a'r perthi'n dechrau'n deilio wedi'r cawodydd diweddaraf, cyndyn ydy'r hen Garth Fawr i newid ei lliw. Mae rhwd y rhedyn yn araf iawn i ildio. Gan i ni gael mis heb lawogydd cyn hyn, does dim syndod nad ydy'r rhedyn na'r borfa ar Y Garth heb lasu'n llwyr eto. Fel popeth arall, fe ddaw pethau'n well cyn hir!



Fodd bynnag, mae ambell fachlud yn werth ei gofnodi ac yn addewid o ddiwrnod arall. Mae hynny, ynddo'i hun, yn gysur!

Tymor newydd

Mae ein 'porwr gwair' bach answyddogol wedi dod yn ôl – y gwningen wyllt sy'n hanner byw yn ein porfa. Bu hithau, a'i rhywogaeth, ar un adeg dan fygythiad pla pur ddifäol – yr hen "ficsomatosis". Ond mae hi a'i chyd-gwningod yma o hyd! Roeddwn i'n hanner ofni byddai'r Sion Blewyn Coch lleol wedi ei hawlio hi dros fisoedd llwm y gaeaf. Nid felly y bu. (Efallai bod y cadno wedi cael un o 'ddelifris' Tesgo neu Asda i'w ddiwallu – er, dyn a ŵyr, sut cafodd e slot, chwaith!)

Tan tro nesa, - Hwyl!

Ifan (***tycnau@aol.com***)

MYFI YW'R FFORDD? Nage glei!

John Evans, Radur

Byddai'n digwydd yn gyson. Nifer o'r gwyr oedd wedi mynychu'r oedfa yn ymgasglu ar yr hewl y tu fas i 'Fethlehem' ac yn rhoi'r byd yn ei le! Cyfarfod felly a fu'n gyfrifol pan benderfynwyd gofyn y cwestiwn i'r Parchedig T.J. Davies. Ai o geg Dr Dafydd Huws y daeth y cwestiwn ar ran y clwstwr bychan ohonom "Mae pawb wedi mwynhau y neges y bore 'ma. Pam na ddowch chi i fod yn weinidog arnon ni?" Ateb T.J. oedd "Does neb wedi gofyn imi." Cyn diwedd y dydd roedd Ifor Rees wedi cysylltu a phob ffynhonnell a T.J. wedi derbyn y gwahoddiad i'n bugeilio. Pennod lwyddiannus a dweud y lleia.

Ar ddiwedd pob oedfa byddai'r gwragedd yn ymholi a thrafod digwyddiade y tu fewn i'r capel gyda'r dwrn o barablu'r gwyr yn para yn yr awyr iach. Fe fydde T.J.'n ymuno yn aml.

Ond y tro hwn, yng nghanol yr wythdege, daeth atom a'i eiriau oedd "Mae'n rhaid ichi fy esgusodi i heddi gyfeillion achos rwy'n gweithio y prynhawn 'ma 'to". "O, ble?"

"Rwy i wedi derbyn gwahoddiad i gadw oed nôl yn Sir Aberteifi yng nghapel Soar y Mynydd."

Y gred yw taw dyma'r capel mwyaf anghysbell yng Nghymru gyfan. Siwrne hwylus iddo oedd y dymuniad.

A minne'n hanu o Dregaron doedd capel y Soar ddim yn anghysbell i mi, o bell ffordd. Dyna leoliad ffermydd Nantllwyd, Nantstalwen, Nantrwch a nifer o ffermydd defaid er'ill. Dyna'r llefydd y bydde gwyr ifanc (tre lleoliad Eisteddfod Genedlaethol 2021) yn ennill 'u harian poced adeg y cneifio blynyddol.

Ni fu'n fater o fynd ar fy nglinie cyn gofyn i Marian, Sara a Iolo am yr hawl i gynnig fy mod yn gyrru T.J. Ron i mor falch. "Mae T.W. yn dod hefyd" meddai. (Roedd T. W. Thomas yn un o hoelion wyth Bethlehem – ac mae'n destun stori ar dudalen nesaf yn y rhifyn hwn!)

"Ardderchog" meddwn i ac ar ôl cinio sydyn bant a'r cart. Mwynhad pur oedd cael cwmni'r ddou dros y Banne ac i lawr i Bont Senni cyn troi tuag at Llanymddyfri. Minne wrth fy modd yn derbyn sylwade gwerthfawr am y pentre, mynydd, fferm ag ati ar hyd y daith. Cyrhaeddwyd Llanymddyfri mewn dim o dro.

I mi o hynny ymla'n ma'r ffordd yn glir. Y tu fas i Lanymddyfri anelu at bentre Cil y Cwm ac yna troi i'r dde ac ry'ch chi ar yr hewl i Lambed. Rôl cyrraedd yno cymryd y draffordd (wel, dyw hi ddim yn draffordd mewn gwirionedd!) i Dregaron. Yno troi ar y dde o'r sgwâr fowr lan dros y mynydd i fferm Nantllwyd. Ron i'n dawel fy meddwl ond yn sydyn y lleisie'n gytûn.

"PAID troi fan hyn. Cer yn syth yn dy fla'n!" Roedd rhaid ufuddhau ond ro'n i'n argyhoeddedig ein bod ni ar y llwybr anghywir. Ystrad Ffin, yna Rhandirmwyn, yna Llyn Brianne! Beth nesa?

Mewn dou air! CAPEL SOAR. Gwers i mi, "Gwranda ar rywun sy'n gw'bod yn well na ti"! Clywch, clywch! Cafodd T.J. a T.W. groeso cynnes a chafodd y selogion bregeth i'w chofio! Ac fe alla i ddweud fod 'na ffordd arall o gyrraedd Tregaron!

Hen lun, hen hen filiwnydd

Alwyn Harding Jones

Tybed sawl un ohonoch, fel Angharad a mi, fu'n gwylio'r gyfres fer 'Quiz' ar y teledu yn ddiweddar? Cyfres oedd yn olrhain hanes gŵr a gwraig oedd yn benderfynol twyllo ei ffordd i ennill y brif wobr ar raglen *'Who wants to be a millionaire?'*. Wrth ddilyn hynt a helynt y twyllwyr dros gyfnod o dair noson daeth delwedd i'm cof o furlun hynafol sydd i'w weld yn Eglwys Cadog Sant ym mhentref Llancarfan ym Mro Morgannwg.

Aeth dwsin o flynyddoedd heibio ers y diwrnod hwnnw pan ddaeth Jonathan, pensaer prosiect atgyweirio to'r eglwys, nôl i'r swyddfa'n llawn cynnwrf i adrodd am ei ddarganfyddiad. Roedd wedi sylwi ar linell goch, ddim mwy na maint ei fys canol, yn agos at ben uchaf y wal ddeheuol ble roedd y gwyngalch wedi pilio.

Fel pensaer profiadol yn y maes cadwraeth adeiladau mi roedd Jonathan yn amau fod y llinell goch yn rhan o furlun hynafol. Ac mi roedd yn llygad ei le. Wedi pendroni o fewn y swyddfa a thrafod hefo arbenigwyr yn y maes, penderfynwyd archwilio ymhellach drwy gymryd ffwrdd yr haenau o wyngalch mewn lleoliadau penodol i geisio deall beth oedd yn cuddio tu ôl. Gyda chefnogaeth y Loteri Treftadaeth aeth dwy arbenigwraig ati dros gyfnod o fisoedd i ddadorchuddio'r murluniau. Gwaith gofalus tu hwnt, yn pilio'r haenau o wyngalch drwy ddefnyddio dim mwy na scalpel miniog, a datguddio, fodfedd wrth fodfedd, y delweddau oedd wedi'u cuddio ers y Diwygiad Protestannaidd oddeutu pum can mlynedd ynghynt. Peintiadau oedd wedi'i gosod ar y waliau tua canol y bymthegfed ganrif, llai na chanrif cyn y Diwygiad a geisiodd ei difodi. Llun enfawr o San Siôr yn difa'r ddraig, fel yr adroddir yn y Chwedlau Aur nôl yn y drydedd ganrif ar ddeg, ddaeth i'r golwg gyntaf. Yr un San Siôr, milwr o wlad Twrci, a fabwysiadwyd fel nawddsant sawl gwlad gan gynnwys Lloegr.

Yna daeth y *'Danse Macabre'*. Delwedd o ŵr breintiedig yn cael ei arwain at ei farwolaeth gan sgerbwd. Delwedd gywrain iawn sy'n ein hatgoffa, ac yn ein rhybuddio, mai'r un tynged sy'n aros pob un ohonom, beth bynnag ein statws mewn bywyd.

Ond un o ddelweddau'r Saith Pechod Marwol ddadorchuddiwyd ym mhen gorllewinol yr eglwys ddaeth i'm cof wrth i mi wylio'r gyfres 'Quiz'. Sef, murlun sy'n dehongli 'AVARITIA', neu yn y Gymraeg, y pechod marwol o fod yn FARUS. Hynny yw, o fod ag awydd gormodol am gyfoeth neu bŵer.

Edrychwch yn ofalus ar y ddelwedd, cymeriad tebyg i'r 'Loadsamoney' hwnnw grëwyd gan Harry Enfield hefo diafol bob yn ochor iddo yn ei demtio â chyfoeth mawr, ac yn tywallt arian di-bendraw mewn i'r blwch enfawr o'i flaen. A'r sarff yn uffern islaw yn barod i'w lyncu!

Os ydy'r trafferthion diweddar, y marwolaethau a'r cyfyngu llym ar ein symudiadau wedi amlygu unrhyw beth, parodrwydd rhan helaeth o'n cymdeithas i beidio bod yn hunanol ydy' hynny. Pwy ohonom felly sydd yn ysu bod yn filiwnydd? Faint gwell fyddwn i heddiw, heb allu teithio, gweld teulu agos, cwrdd a ffrindiau, mynd i'r theatr neu'r cwrdd, ag yn y blaen? Yn sicr, mae'r amser yma wedi rhoi cyfle i ni werthfawrogi pethau pwysicaf bywyd.

Os, yn groes i'r gân enwog o'r ffilm 'High Society', mai *'I do'* ydy'ch ateb i'r cwestiwn *'Who wants to be a millionaire?'*, dwi'n cynnig eich bod yn cael golwg eto ar y ddelwedd o 'Avaritia' sydd ar wal orllewinol Eglwys Cadog Sant!

Mae Alwyn yn bwriadu trefnu taith ar gyfer aelodau Bethlehem a'u ffrindiau i ymweld a'r eglwys yn Llancarfan unwaith bydd yr helyntion presennol drosodd. Cafodd gwmni aelodau'r Cwrdd Merched yno rai blynyddoedd yn ôl. Os oes diddordeb gennych i glywed yr hanes yn llawn a chael dehongliad o'r holl ddelweddau, hwn fydd eich cyfle.

CANU YM METHLEHEM

Rhodri-Gwynn Jones

Mae canu “Geiriau Olaf Dewi” yn y capel ar fore Sul y 1af o Fawrth eleni yn edrych bron mor bell yn ôl a dyddiau'r hen Sant ei hun erbyn hyn.

Ddim nad ydi ei her i “*wneud y pethau bychain*” wedi’m gadael yn llwyr serch hynny – fe gaf fy atgoffa yn ddyddiol gan reolwr tŷ ni fod angen gwneud y peth yma a’r peth arall “*gan fod gen ti ddigon o amser sbâr ar dy ddwylo ar hyn o bryd*”!

Yn nyddiau’r “Gofid Mawr” mae 'na amser i’w lenwi wrth reswm, a tydwi heb fod yn segur.

Er, gwell cyfaddef bod 'na ambell beth yn apelio mwy at un ohonom na’r llall, ac yn sicr, nid yr un ydi’r blaenoriaethau o’r herwydd.

Dwi’n meddwl fy mod i’n dda am dacluso, ond eto mae 'na ddau fath o dacluso – fy nhacluso i a thacluso’r rheolwr tŷ – er fy mod bob amser yn cytuno a hi ar yr egwyddor o dacluso!

Ail-osod ydi fy nhacluso i, chwynnu ydi ei thacluso hi!

Cadw petha' mewn trefn wahanol wna i – taflu pethau nad oes eu hangen ydi’r drefn o’i thu hi!

Da’chi’n dechra' deall petha erbyn hyn yntydach – ac am gydymdeimlo hefo’r ddau ohonom siŵr o fod!

Ynghanol un o’r sesiynau “tacluso” y deuthum ar draws y llyfryn bach yma (*gweler y llun uchod*).

O agor y clawr wele’r ddalen gyntaf yn cyhoeddi mai rhaglen “Y Ganfed Cymanfa Ganu” ydi hi, ac i hynny ddigwydd ar ddydd Gwener y Groglith 1af Ebrill 1988.

Er i oes y Gymanfa hon ddod i ben ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach mae’n dda bod ei hanes am y ganrif gyntaf wedi ei gynnwys yn y “Rhagair” i’r daflen hon, a’i groniclo gan Christopher Powell, un o’r organyddion amryddawn, ymysg nifer, a fu, a sydd o hyd yn gwasanaethu’r eglwys.

Nodir bod tri cyfeilydd yn y Ganfed Gymanfa, sef Chris, Mrs Archard o’r Groeswen, a’r diweddar Mr Glyndwr Williams, priod Mrs Ann Williams (ein aelod hynaf), a ddechreuodd gyfeilio i Gymanfa Ganu 1931.

Yn ôl yr hanes yn y daflen, 'roedd rhaglen Cymanfa Ganu 1895 (y 7fed Cymanfa) ar gael i’r cofiannydd, a soniodd bod yr arfer o gyhoeddi taflen yn flynyddol bron yn ddi-dor o’r cychwyn cyntaf.


"Gennu glan a gana'n glir"

Dan nawdd Eglwysi Annibynnol Groeswen a Bethlehem

Rhaglen

Y GANFED
CYMANFA GANU

A gynhelir yng
NGHAPEL BETHLEHEM
GWAELOD-Y-GARTH
Dydd Gwener y Groglith, 1 Ebrill 1988
Y Cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch

Arweinydd:
ALUN GUY
Caerdydd

Cyfeilyddion:
Mrs V. Archard, Groeswen
Mr. Glyndwr Williams, Bethlehem
Mr. Christopher Powell, Bethlehem

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Wyn Roberts, Ysw.
Trysorydd: Christopher Powell, Ysw.
Ysgrifennydd: Robin D. N. Bateman, Ysw.

Dros y blynyddoedd byddai cyfansoddwyr lleol yn cyfrannu tonau a geiriau i’w canu yn y Gymanfa, a nifer ohonynt a chysylltiadau a Bethlehem, gan gynnwys y diweddar Barchedig Ifor Rees, Chris a Peter Wynn Thomas.

Tybed faint o daflenni Cymanfaoedd y gorffennol sydd yn llechu yn eich cartrefi chi – pwy ŵyr na fyddai mymryn o dacluso yn dod a nhw i’r fei!

Ac wrth i Rhodri chwilota a thrysori, fe welwch berl arall ddaeth i'r fei ar y dudalen nesaf! Talp arall o hanes Bethlehem yn y Papur Bro

Tafod Elái

GORFFENNAF 1991 Pris 25c RHIF 59

DATHLU DAU BENBLWYDD

Ni bu noson fel nos Sul Mehefin y degfed-ar-hugain ym Methlehem, Gwaelod y Garth. Ni ddisgwylir un eto. Dau ddiacon yn dathlu penblwydd yn naw deg! Y ddau wedi eu geni y drws nesa i'w gilydd, a dim ond tridiau sy'n eu gwahanu. Peth prin, sobor o brin, bellach yw brodorion o'r Gwaelod. Dyna yw'r ddau yma.

Cyfeirio ydw i at T.W. Thomas, Greenhurst, Pentyrch, neu a rhoi iddo ei enw yng Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain, Ab Eos. Mae'n un o Gymrodyr yr Eisteddfod Genedlaethol. A'r llall yw Trefor Phillips, sy'n byw yn yr Eglwys Newydd. Mae'r ddau yn rhan o'r wythien fawr yn y Gwaelod, Y PHILIPIAID, teulu dylanwadol ac a gyfrannodd lawer i'r fro, ac yn arbennig i'r capel. Mae dyled Bethlehem yn fawr iddynt.

Codwyd y ddau o dan weinidogaeth y patriarch R.G. Berry, ac y mae dylanwad y gwron hwnnw yn drwm arnynt. Gwir i T.W. a Trefor fynd i feysydd gwahanol. Trefor â'i diddordeb mawr mewn chwaraeon ac yn fedrus fel cricedwr a bowliwr a deil i gymryd diddordeb mawr yn y gemau yna. Ni chadd yr iechyd gorau yn ddiweddar ac am hynny ni fedrodd fynd a dod fel y dymunai. Ond fe'i gwelir yn gyson yn y Gymanfa. Un o gynheiliaid y sefydliad hwnnw.

T.W. Thomas a Trefor Phillips

Deil T.W. yn fythol wyrdd. Yn yr oedfa bob Sul ac fe wyddoch ei fod yno! mae'n porthi, ffenomenon anghyffredin y blynyddoedd hyn a pharod yw i ddyblu'r gân yn fynych. Gŵr ydyw a gymrodd ddiddordeb mawr yn ei fro ac y mae'n fwnglawdd o wybodaeth a hanesion difyr am gymeriadau yr ardal. Beth bynnag, Nos Sul ola' o Fehefin daeth aelodau'r capel ynghyd i ddiolch a dathlu. Paratowyd gwledd gyda chacen hardd wedi ei chrasu gan Eluned Davies-Scott a chadd y ddau dorri'r gacen. Bu'r beirdd wrthi yn canu eu teyrngedau i'r ddeuddyn. Noson hwylus, noson ddiddan, noson o ymhyfrydu fod dau wedi eu cadw cyhyd a'u gwasanaeth i'w capel yn nodedig.

Bydded iddynt iechyd da i'r dyfodol. Bydd Tefor yn cael ei benblwydd ar y 15ed o Orffennaf, ac yn ei ddathlu yn 56 Manor Rise, Yr Eglwys Newydd, a T.W. ar y 18ed o Orffennaf, yntau yn yr un modd yn dathlu yn Greenhurst.

AR ÔL YR EISTEDDFOD

Dwi'n cofio 'nhad yn sôn am yr wythnosau hynny yn union ar ôl diwrnod yr ail ryfel byd. Meibion a merched, a wthiwyd i'r eithaf, yn methu'n lân rhywsut â dygymod a'r gwagle corfforol a meddyliol a brofent yn sgîl yr heddwch. Digon tebyg, yn ôl pob sôn, ydy profiad cannoedd o drigolion Taf Elái, yn oedolion a phlant, ers diwedd y 'Steddfod! Pawb yn falch o'r llonydd, ac eto'n hiraethu am y bwrlwm.

Ar ddiwedd y rhyfel wrth gwrs, aethpwyd ati i harnesu egni'r brwydro i'w ddefnyddio i wireddu'r gobaith ac i adeiladu dyfodol. A ydym ninnau am wneud yr un peth yn Nhaf Elái? Harnesu'r egni a'r brwdfrydedd eisteddfodol, a'i sianelu tuag at wireddu'r gobaith y sonwyd cymaint amdano yn yr Wyl, ac i adeiladu dyfodol sicr i'r Gymraeg yn y fro hon.

Bydd hi'n ddiddorol gweld beth fydd argymhellion y gweithgor; dan gadeiryddiaeth Wyn Rees, wrth gyhoeddi canlyniadau'r "arolwg gweithgareddau Cymraeg". Sut ddôs o wrtaith tybed fydd yn addas i droi "egin dw' yn gnwd o ŷd"?

Cyd-chwaraesant yn blantos, a pharhau'n
Ddau ffrind drwy bob achos;
Triw o hyd wrth fyned dros
Eu naw deg - ffrindiau agos.

Dau ystwyth ein llwnc destun - yn naw deg
Eu dau, fel dau ferlyn;
Yn naw deg, dau hynod ŷn;
Yn naw deg fel dau hogyn.

Oedfa ar gyfer 'Dydd Sul Ebrill 26ain **Wynford Ellis Owen, Creigiau**

GWEDDÏWN:

Ysbryd Sanctaidd, tarddiad pob gwirionedd, rhoddwr pob pŵer
Tyrd arnom yn awr
Mor dyner â cholomen
Neu fel tafodau o dân bywiol
Mor dawel ag awel hwyrddydd haf
Neu fel gwynt nerthol yn rhuo.
Tyrd a thriga oddi mewn i ni.
Caniatâ inni wneud y pethau hynny a oedd yn amhosib
Annheilwng fel yr ydym, Ysbryd Sanctaidd y Duw byw,
Rho inni'r rhoddion hynny y gallwn eu defnyddio er anrhydedd a gogoniant i ti
Fel y byddwn yn dangos dy ffrwythau di
Hyd yn oed yn ein bywydau ni.
Gogoniant i ti'r Tad
Gogoniant i ti'r Arglwydd Iesu Grist
Gogoniant i ti'r Ysbryd Sanctaidd.
Amen.

MYFYRDOD:

Un o'r cwestiynau cyntaf yn aml iawn sy'n cael ei ofyn i mi wrth gwnsela a chynnig cefnogaeth drwy Cynnal, y gwasanaeth Cwnsela Eglwysig, sy'n cael ei gynnig ledled Cymru i Glerigwyr, Gweinidogion yr Efengyl a'u teuluoedd, yw hwn: ydw i'n Gristion?

Rydw i wedi pendroni llawer uwchben fy atebiad nes imi ddechrau holi'n hunan, beth yw Cristion? Neu, yn hytrach, beth a olygwn wrth Gristion?

Mae'n gwestiwn hawdd iawn ei ofyn. Ond nid yn un mor hawdd ei ateb.

Byddwn yn sôn am hwn neu hon - "Dyna Gristion o ddyn neu ddynes" meddwn. Neu am rywun arall, "Mae o'n rêl Cristion." Neu efallai bod hwn neu hon wedi marw, ac wrth dalu teyrnged dywedwn, "Roedd hwn neu hon yn Gristion heb os nac oni bai."

Nawr, beth yn union a feddyliwn wrth ddweud bod dyn neu ddynes yn Gristion? Beth sydd raid i chi gael neu beth sydd raid i chi fod i haeddu cael eich galw'n Gristion?

Rydw i wedi canfod llawer o atebion posib, ond rywsut does dim un yn bodloni.

1. Y mwyaf syml: - trwy fedydd y mae rhywun yn dod yn Gristion. Plentyn bach ym mreichiau'i fam yn dod i gael ei fedyddio a mynd allan yn Gristion? Anodd derbyn y diffiniad yna rywsut. Yn siŵr y mae a wnelo bod yn Gristion rhywbeth â ffydd ac ymarweddiad - sut mae dyn yn byw - rhywbeth nag ŵyr y plentyn fawr ddim amdano. Heblaw hynny, mae llawer sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion, ond heb erioed gael eu bedyddio.
2. Neu beth am - drwy gael eich derbyn yn gyflawn aelod, neu drwy gonffyrmasiwn, drwy arddodiad dwylo esgob yn yr Eglwys wladol? A yw un sydd wedi ei dderbyn fel yna i gyflawn aelodaeth o'r Eglwys Gristnogol yn Gristion? Mi ddylech chi a finnau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd fedru nabod Cristion, ond does dim modd medru gwahaniaethu'n aml rhwng un wedi 'ei dderbyn' ac un heb ei 'dderbyn'.
3. Diffiniad arall: Cristion - yw un sydd wedi cael tröedigaeth, neu sydd wedi ei eni drachefn (i ddefnyddio ymadrodd Efengyl Ioan). Mae hwn yn ddiffiniad gwell, ond yn rhy gyfyng. Be da ni'n feddwl wrth 'dröedigaeth'? Ai'r hyn a ddigwyddodd i Paul ar ffordd Damascus neu'r rhywbeth tebyg i'r hyn a ddigwyddodd i gannoedd o hen bechaduriaid yn amser y diwygiad (ac i mi yn Aberystwyth ym 1992)? Rhywbeth mawr, ysgytwol, chwyldroadol yn digwydd iddynt, sy'n eu gwneud yn Gristnogion? Ond tydi pob Cristion ddim yn cael rhyw brofiadau mawr ysgytwol fel yna. Mae rhai yn

troi'n Gristnogion gyda sydynrwydd afal yn syrthio oddi ar goeden; eraill wedyn yn ymagor yn raddol ac yn ddigyffro fel mae'r blodyn yn agor i'r haul.

4. Efallai y dylem ddweud mai dyn yn credu yn Nuw trwy Iesu Grist yw'r Cristion. Mae hwn yn well diffiniad fyth. Ond mae gan rai pobl syniad od iawn am Dduw ac am yr Arglwydd Iesu Grist. Rydw i wedi bod yn darllen am hanes Albert Schweitzer yn ddiweddar. Roedd athroniaeth bywyd a gwaith bywyd Schweitzer yn croesddweud ei gilydd. Nid yw Schweitzer yn derbyn ein hathrawiaeth ni am Dduw ac am Iesu Grist. Nid yw'n credu mewn Duw personol. Nid yw'n credu mewn gweddi yn ein hystyr ni i'r peth. Dyn oedd Iesu Grist iddo, ac ni ddylem dderbyn yn hollol ei athrawiaeth na'i ddehongliad o ystyr bywyd. 'Interim ethic' oedd dysgeidiaeth Cristnogaeth yn ôl Schweitzer. Credai Iesu Grist, fel y gweddill o bobl ei oes, fod diwedd y byd yn ymyl, a rhywbeth ar gyfer yr amser byr oedd ei ddysgeidiaeth ef. Nid yw Schweitzer yn Gristion yn ystyr orthodox y gair, ac eto, does fawr neb wedi medru cyfieithu Ysbryd yr Arglwydd Iesu i actau a gweithredoedd bywyd bob dydd yn fwy nag ef.
5. A oedd Pedr, Iago, Ioan ayyb yn Gristnogion yn nyddiau cynnar Gweinidogaeth yr Iesu ar y ddaear? Ynte dod yn Gristnogion ddaru nhw ar ôl iddynt gredu ystyr marw'r Groes a'r Atgyfodiad? Mae llawer i'w ddweud tros ddiffinio Cristion fel un sydd yn dilyn Iesu Grist.
6. Mae'r Testament Newydd yn ymddangos fel pe'n awgrymu mai'r hyn sy'n gwneud dyn yn Gristion yw preswyliad yr Ysbryd Glan oddi mewn iddo. Ond sut mae diffinio'r preswyliad yna? Mae llawer fyddai'n barod i ddweud nad ydynt yn gredinwyr ond eto'n dangos yn eu bywydau bob dydd Ysbryd yr Arglwydd Iesu.
7. Mae eraill yn dweud nad oes y fath beth â Christion unig - ar ei ben ei hun. Rhaid iddo fod yn aelod o gymdeithas - yr Eglwys. Ac eto, prin y byddai'n iawn i ddweud fod pob un sy'n aelod o Eglwys yn Gristion; a gwyddom am sawl un sy'n Gristion gloyw ond heb fod yn perthyn i unrhyw eglwys arbennig.
8. A oedd Iesu Grist ei hun yn Gristion? Iddew yntau Cristion oedd o?

Gwelwch felly mor anodd yw ateb y cwestiwn a dweud yn union beth yw Cristion. Efallai mai'r ateb mwyaf syml a boddhaol yn y pen draw yw dweud mai Cristion yw dyn sy'n trio bod yn debyg o ran ei fywyd a'i gymeriad i'r Arglwydd Iesu Grist. Hwnnw y mae'r emyn bach - 'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw' yn weddi ac yn awyddfryd pennaf ei fywyd yn y byd.
Dyna fy ateb i beth bynnag. Ond bob tro mae rhywun yn gofyn y cwestiwn, ydw i'n Gristion? "Na" fydd fy ateb bob tro - ma' gen i ofn fy mod i'n berffaith amherffaith. Ysywaeth, ochr yn ochr â'r Mwyaf Un, allwn i fod yn ddim byd arall.

Gweddïwn:

O Dad Nefol, helpa ni i beidio gwastraffu'r storm hwn. Defnyddia'n hamherffeithrwydd, fel y gallwn fod yn amddiffynfa i'r rhai sy' angen eu hamddiffyn, yn dywyswyr i'r rhai sydd ar y ffordd, cychod neu fadau neu bontydd i'r rhai sy'n croesi'r dyfroedd tymhestlog. Boed inni fod yn llusernau yn y tywyllwch, gorffwysfa i'r lluddedig, a moddion i iachau'r cleifion. Ffiolau gorlawn, a choed o wyrthiau. Ac i'r nifer di ri' o bobl ar y blaned, boed inni gynnig cynhaliaeth, a deffroad, nes bydd y byd i gyd yn rhydd o dristwch, a bydd pawb yn effro i'r goleuni sydd ynot ti, Iesu – achubwr a gobaith mawr y byd.

Amen.

Awydd anfon cyfraniad i rifyn dechrau mis Mai?
Does dim rhaid iddo fod yn faith.

Erbyn Ebrill 29ain at: tycnau@aol.com

Fel llawer ohonoch, un o'r pethau rwyf wedi bod yn ei wneud yn ystod y cyfnod anodd hwn yw mynd drwy y pentwr o luniau sydd gyda ni. Fe ddechreuodd y dasg gyda'r bwriad o dacluso rhywfaint yn unig, ond wrth fynd drwy'r llunie dechreues fynd ar daith hynod o gyffrous a hapus, yn arbennig pan ddes ar draws lluniau o'r tripiau Ysgol Sul gynt. Roedd llawer o'r llefydd y buon ni ynddyn nhw wedi mynd yn angof, a felly ar adeg fel hyn mae'n hyfryd cael rhannu rhai o'r amserau hapus, doniol a thrist efallai, gawson ni. Gobeithio daw rhai o'r lluniau hyn ag atgofion melys iawn nôl i'r rhai oedd yno, ac i'r rhai oedd ddim …wel, fe golloch chi mas ar dipyn o hwyl, credwch chi fi!

Roedd yna dripiau undydd i lefydd fel Canolfan Penclacwydd, lle dwi'n cofio rhyw hwyaden haerllug yn mynd ar ôl criw o'r oedolion – bu lot o chwerthin am hynny; siwrneiau i Barc Gwledig Pen-bre a Margam; traeth Aberafan lle cafwyd gêm gystadleuol iawn o griced rhwng yr oedolion a'r plant – gyda John Evans a Huw Llewelyn Davies yn serennu; Parc Bywyd Gwyllt Pensgynor; Canolfan Hamdden Abertawe – nid dyna lle'r o'n ni'n mynd ond daeth y glaw a gorfod ffeindio rhywle dan do; a pharc Oakwood lle gwlychodd pawb yn stecs. Does dim llunie gen i am bob un … efallai bod gyda chi?, Ond fel y gwelwch, roedd 'na wastad bicnic ar gael ta ble oedden ni.

Ond y 'pièce de résistance' o'r tripiau oedd y penwythnosau yn Llangrannog. Sai'n cofio sawl gwaith aethon ni ond fe fuon ni 'sawl' gwaith … a dyna beth oedd hwyl! Roedd y plant wrth ei bodd yng nghwmni ei gilydd ac yn joio'r gweithgareddau i gyd, ac roedd yr oedolion yn joio jest cymaint... credwch chi fi! (Dwi'n gallu gweld y rhai ohonoch oedd yno yn gwenu ac yn cytuno wrth ddarllen hwn!).

Rhai o'r uchafbwyntiau: roedd penblwydd priodas Delyth a Pwt *(dde)* tra'n bod ni yno un tro. Wel, roedd rhaid dathlu yn doedd e? Siwrne gloi yn y car i Tesco Aberteifi i ôl rhywbeth bach pefriog i lenwi ein gwydre i ddymuno'n dda i'r ddau, a chacen i bawb. Fel y gwelwch, *(dde isod)* roedd Delwyn yn ymddangos fel arweinydd da ar yr adeg hynny. Rhyfedd os y bydden ni wedi gallu rhagweld y bydde fe'n rhannu'r gwin i ni yn y capel mewn blynyddoedd i ddod! Ar ôl swper, a phan oedd y plant wedi dechrau tawelu, fe fydden ni'n setlo lawr yn y lolfa i fwynhau gwrando ar storïau Dr Dafydd Huws, geiriau doeth ac yn ysbrydoliaeth i ni gyd. Dyna beth oedd dodi'r byd yn ei le. Rhyw gof gen i am gêm o Jenga aeth yn hynod o ddwys rhwng y rhai cystadleuol yn ein plith.

Fe fuon ni'n cymryd rhan yn holl weithgareddau'r gwersyll hefyd. Fel y gwelwch roedd na dîm yn barod i fynd lawr y 'luge'. Yn anffodus, fe gollodd un o'r tîm (yr hynaf), reolaeth ar ei sled a fe dorrodd asgwrn yn ei law. Mae e'n dweud tan heddi mae Meilyr Sion oedd yn dod ar ei ôl lawr y llethr, a bod dim modd osgoi'r ddamwain. Dyna lwc fod Dafydd Huws yn y fan a'r lle a'i farn broffesiynol, sef "Wel, alli di fynd i Glangwili, ond wna'n nhw ddim byd i'r llaw ta beth" – a fe fuodd y sgïwr yn ddewr iawn a godde'r boen!

Dyddiau hapus a di-bryder !

Mair John

Pedair Wyres, Pedwar Sampler

Margaret Roberts

Flwyddyn ddiwethaf, cyn yr ynysu, newidiais fy sbectol. Sbardunodd hyn fi i ailgydio yn fy ngwaith pwytho. Bu bron i mi roi gorau iddi'n llwyr nes i fy wyres hynaf ofyn i mi bwytho rhywbeth fel anrheg deunaw oed iddi hi. Roedd rhaid cytuno.

Roedd hi am i mi bwytho cân roedd hi wedi ei chyfansoddi ar gyfer ei chwrs lefel A ac yn wir roedd y gân wedi cael ei chanu ac wedi cael sylw mawr ar Radio Cymru ac yn amlwg yn golygu llawer i Ffion.

Felly es ati i bwytho'r gytgan *(dde)*. Roedd ei hymateb yn werth yr holl ymdrech.

Roedd ei chwaer, Betsan, wedyn yn haeddu'r un sylw. Heb oedi, dewisodd hi un o'r sampleri mwyaf cymhleth roeddwn wedi'i wneud flynyddoedd ynghynt, sef yr Wyddor Gymraeg. Roedd hi wedi gwirioni ar y sampler hwn a'i bryd ar gael un tebyg *(chwith)*.

Mae'n cael lle anrhydeddus ar ei wal!

Courtney oedd i ddod nesaf. Ei dewis hi oedd cerdd Gwyn Thomas ar achlysur dathlu penblwydd Ysgol Gymraeg Llundain yn drigain oed, yr ysgol gynradd roedd hi wedi ei mynychu a chael cyfnod eithriadol o hapus yno ac ysgol a atgyfnerthodd ei Chymreictod. Roedd hi am i hefyd gynnwys logo'r ysgol; sef y blodyn a welwch yn y canol. Clywon ni blant yr ysgol yn canu'r gân yn ei chyfanrwydd ond dau bennill allweddol ddewisodd Courtney *(dde).*

Ynghanol môr o Saesneg
Mae ynys fechan werdd
Sy'n pefrio gan Gymreictod,
Gan eiriau, rhifau, cerdd.

Afallon yw hon, felly,
Lle mae y bywyd sy
Yn rym yn y presennol,
Yn dod o'r hud a fu.

Gwyn Thomas

Nel fach oedd yr olaf o'r wyresau. Llun ohoni hi ei hun roedd hi eisiau. Felly es ati i bwytho llun o ferch fach ddel a chael ei thaid i lunio cwpled i gyd-fynd â'r llun *(chwith)*.

I Nel, un o'r anwylaf,
Wyres, brenhines ein haf.

Roedd hithau wedi gwirioni ac mae'r sampler ar wal ei hystafell wely.

Pan ddaw cyfle eto fe wna i gofnodi pwytho englynion gan feirdd cenedlaethol a beirdd llai enwog ar achlysur priodasau a genedigaethau yn y teulu.

Cofroddion

Rhodri-Gwynn Jones

Bu'n wyliau ysgol – gwyliau Pasg yr ysgol – ond fe wyddom nad oes trefn ar wyliau na dim byd arall ar hyn o bryd.

Dwi'n ymwybodol bod nifer ohonoch wedi'ch siomi oherwydd gorfod gohirio taith i weld teulu a chydnabod, eraill ohonoch wedi bwriadu troi tua cyfandir Ewrop neu bellach, a hynny hefyd wedi gorfod eu rhoi o'r neilltu am y tro.

Os ydych fel fi, mi fyddwch yn aml yn cyrraedd adref o'ch gwyliau hefo toreth o luniau o lefydd y byddwch wedi ymweld a nhw, ac fel petae hynny ddim yn ddigon i'ch atgoffa am y daith, byddwch hefyd wedi prynu cofroddion i'w rhoi ar y silff-ben-tân i ddal llwch, neu i'w rhoi yn nrôr y dresal, i'w anghofio fel arfer! Mae 'na ambell un ohonynt serch hynny sy'n cael eu lle yn daclus yn tŷ ni, ac yn cael gofal y cadach glanhau melyn yn rheolaidd.

O ynys Creta daeth cerflun o sbrigyn y goeden Olewydden, a'r cyfan wedi ei wneud o weiren a metel - arwydd o heddwch yw'r brigyn Olewydden, ac mae bob amser angen digon o hwnnw yn yr hen fyd 'ma. (Fe gofiwch mai deilen olewydd ffres a ddaeth y golomen honno yn ôl yn ei phig yn stori Noa a'r dilyw [Genesis 8. 11]).

O ddinas Ravenna yng ngogledd yr Eidal y daeth y groes fach werdd mosaig. Ravenna oedd prifddinas olaf Ymerodraeth Rhufain cyn ei chwymp terfynol yn 476 O.C. ac yma hyd heddiw gwelir delweddau Cristnogol mewn mosaig gyda'r mwyaf bendigedig yn y byd i gyd, peth ohono yn dyddio 'nôl i'r 4^{edd} a'r 5^{ed} ganrif O.C. Yma y bu i lwl Cesar groesi'r afon Rubicon gyda'i filwyr, ac yma y bu i'r Ymerawdwr Awgwstws adeiladu harbwr pwysig i lynges Rhufain. (Ie yr un Awgwstws a fu'n gyfrifol am y gynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd amser geni'r Iesu ym Methlehem).

Carreg yw'r trydydd cofrodd, o ardal Tabgha, ar lan ogledd-orllewinol Llyn Galilea, a phum torth a dau bysgodyn wedi eu chrafu arni, yn adlais o'r wyrth o fwydo'r pum mil. O ran cyswllt a chyfnod y Pasg, yma hefyd yr ymddangosodd yr Iesu am y pedwerydd tro wedi'i atgyfodiad, y tro hwn i Seimon Pedr a chwech o'r disgyblion, tra 'roeddynt yn pysgota ac yn methu dal dim o gwbl yn eu rhwydi (gweler Ioan 21 1-24). Pa gofroddion sydd gennych chi o'ch teithiau pell neu agos, a pha atgof sydd yn hel yn eich meddwl o'u gweld?

Rhowch wybod i ni yn rhifyn nesaf GBB!

ODLAU'R GARTH 1

Cyfamodwyr

(Aralleiriad o "Covenanters" R S Thomas

Iesu
Ni wisgai het, ond fe gyflwynai, dyweded
O lewys ei grys, ateb
I'r cwestiwn am y bywyd nesaf. Mae yma,
Meddai , gan guro ei dalcen
Fel bydd un yn dynodi
Ffŵl. Gwgodd y dorf

A chymryd cerrig
I ddial ei odineb
Gyda'r gwirionedd. Ond ef, dan blygu
I 'sgrifennu ar y llawr, edrychodd
Arnynt wysg ei ochr, wrth iddynt gilio
Pob un i dy gwydr eu meddwl eu hunain.

Mair
Model y modelau ;
Gwen wyryfol dros
Faban tragwyddol,

Mae darlun ohonof
Yn orielau'r byd,
Mamolaeth heb

Ŵr: morwyndod
Yn bryd a gwedd. Crud
O gnawd i un

Nas genid o gnawd.
Och chwi artistiaid
Yr hanner gwir, mae'r

Beirdd yn rhagori arnoch.
Edrychasant hwy oddi tan
Fy nghaead a gweld

Fel pe megis drwy
ffenestr liw y bryn
y byddai'r plentyn yn gorfod ei ddringo.

Anunionder
Y gusan a roddodd
I'w epistol gariadus.

Joseff
Fe wn beth wnes i.
Gwadu wnaeth hi.
Fe es gyda hi
Ar y siwrne faith.
Fy had i oedd yr
Had, oedd y seren
Y bu i'r gwyr doeth
Ei dilyn. Nid oedd eu anrhegion o ddim
Gwerth i ni. Fi ddysgodd iddo
Ei wir grefft; i fynd
gyda'r graen.

Gadawodd fi
Am Feistr newydd
A wnaeth iddo lunio
Croes iddo'i hun.

Lasarus
Yr alwad daer ! Aflonyddwch
Y Gwanwyn ymysg dail
Sych. Safodd Ef wrth fynedfa'r
Bedd a rhwbiodd farwolaeth o'i lygaid,

Tra bod ffynnon y meddwl yn ailddechrau
Ei chwarae, yn dyfrhau'r tir gwastraff
Unwaith yn rhagor er egino
Had y gwaed, lle dylai rhosod chwifio.

Jiwdas Iscariot
Pigodd flodau dwynodd wyau adar
Fel y gweddill yn fwythau ei fam
Pasiodd o dan y goeden
Y byddai'n crogi ohoni heb
Sylweddoli edrychodd rhwng y brigau
A dim ond gweld wyneb cwmwl
Duw a'r awyr yn adlewyrchu'r
Dwr y fan lle'i maged.

'Roedd yn blentyn craff gyda thalent
Am symiau daeth yn drysorydd
I'r disgyblion , 'roedd yn wirioneddol
Wedi ei frifo gan rai gormodeddau
Yn y Meistr ac yn mynd o'i ddewis ei hun
I wneud yr hyn yr oedd yn rhaid iddo ei wneud.

Paul
Y cwestiwn anghywir, Paul. Pwy wyf fi
Arglwydd ? oedd beth ddylet fod wedi ei ofyn.
Ar ateb, siawns, rhywun
Sydd yn hawdd i ni ei wneud yn gocyn hitio.
'Roedd na lawer o bethau lle roeddyt yn llygaid dy le
Amdanynt. Er enghraifft, fe'th hoffaf ar gariad. Ond priodas – fe gredaf
Fod gormod wedi llosgi yn y tan hwnnw
I ddal y cyferbyniad.
Serch hynny, ti yw'r mynydd
Y treiglodd dysgeidiaeth y saer o Nasareth
Iddo. Mae'r diwinyddion
Wedi cerdded o'th gwmpas am ganrifoedd
Ac nid oes un ohonynt wedi dy ddringo. Erys dy lythyrau
Heb eu hateb, ond maent wedi goroesi y rheini
Y'i gyrraist atynt. A ninnau, yn stwna ar gyrion
Eu dealltwriaeth, gan ffeindio'n hunain yn craffu
Ar draws holltau dyfnion ar ganlyniadau
Na fyddai'r Iesu byw yn eu cyrraedd yn barod.

(addasiad - Rhodri-Gwynn Jones)

ODLAU'R GARTH 2

Chi limrigwyr - anfonwch limrig neu bennill i ni!

Gwynt

Morgannwg... Gwent... mae oergan y gwyntoedd
Yn udo'n flin dros gomin, trwy gymoedd,
Dros feddau, neuaddau, dros fynyddoedd.
Twrw iasol fu'n rhuo trwy'r oesoedd,
Sŵn bonllefau, sŵn angau, sŵn ingoedd
Yno'n troedio hyd teras a strydoedd
Ar ei rawd, ac yno roedd... cymdogaeth.
Ai ias o hiraeth sy'n siglo'r siroedd?

Rhys Powys

Arwydd

Cymerodd yr haul y brwsh yn ei law
Cymysgodd y paent â diferion y glaw,

Cymerodd ei balet—yn seithliw i gyd,
Rhoi bach o Pzaz i lwydni o fyd.

Fe dowlodd y lliw i fynd lle y myn
A dyna yw'r enfys a welaf fan hyn.

O'dd e'n gw'bod bod Cymru ishe amrywieth
A bod ei thiroedd yn frith o dafodieth,

Awgrymodd rhagor o eirie, o barch
Enfys, Pont y Glaw neu Bwa'r Arch.

Ai hanes gwir, ai stori, ai "myth"?
Ond arwydd o obaith fydd enfys am byth

Mae Noa a'i arch wedi hen fynd a'n bryd
A gwelwn golomen â'i deilen o hyd.

Hannah Roberts

Prynu Telyn

Anodd iawn yw bod yn ddig
â "miss", y titshiar miwsig,
hon a fu'n plannu'n y plant
hadau fy holl ddifodiant;
Mi wn i hen harmoniam
wneud i mi a nhad a mam;
a bu unwaith biano
i dinc yn burion yn do?
Ond "miss" fu'n dweud fod isio
Ar L'welyn delyn - a do,
Y dwl, mi wnes i dalu
am blwmin telyn i'r tŷ.
Ergyd saith gwaeth na'r morgais
ydi'r bitsh, a chodi'r bais
oedd sôn am "best investment!"
Ar ôl, doedd fawr i'r rhent
a chyn i mi dorri'n deg
gwerthais gryn saith o'r gwartheg;
Hon a'n rhoes ni yn y "red" -
myn diawl yr wyf mewn dyled!

IR

Atebion y Pos Enwau Llyfrau

1. Ac yna clywodd sŵn y môr
2. Y Tŵr
3. Traed Mewn Cyffion
4. Ffydd Gobaith Cariad
5. Pili Pala
6. I ble'r aeth haul y bore
7. Te yn y Grug
8. Dan Gadarn Goncrit
9. Cathod a Chŵn
10. Un Nos Ola Leuad
11. Ymbelydredd
12. Tylluan Wen